# Canllaw i

# AILYSTYRIAETHAU

## a wneir gan Awdurdod Lleol Caerdydd

Mae Awdurdod Lleol Caerdydd yn annog dysgwyr, rhieni, ysgolion a gweithwyr proffesiynol i weithio mewn partneriaeth.



UCHELGAIS PRIFDDINAS CAPITAL AMBITION

CARDIFF CAERDYDD

**Os ydych yn anghytuno â phenderfyniad y mae ysgol wedi'i wneud ynghylch anghenion dysgu ychwanegol (ADY), bydd angen i chi siarad â Chydlynydd ADY eich Ysgol, neu athro dosbarth yn gyntaf.**

# Penderfyniad ADY:

## Beth os nad wyf yn cytuno â phenderfyniad yr ysgol ynghylch ADY?

Pan fydd ysgol wedi gwneud penderfyniad ynghylch a oes gan ddysgwr ADY, neu os yw wedi gwrthod gwneud penderfyniad o'r fath, gall y plentyn neu ei riant ofyn i'r Awdurdod Lleol sy'n gyfrifol am y plentyn, ailystyried y mater.

Pan wneir cais o'r fath, rhaid i'r Awdurdod Lleol hysbysu'r ysgol a gwahodd sylwadau ganddi cyn dod i benderfyniad.

Os yw Awdurdod Lleol yn derbyn cais o'r fath, rhaid iddo benderfynu a oes gan y plentyn neu'r person ifanc ADY, oni bai bod unrhyw un o'r amgylchiadau canlynol yn berthnasol;

(a) os yw'r Awdurdod Lleol wedi ailystyried y mater eisoes ac yn fodlon nad yw anghenion y plentyn neu'r person ifanc wedi newid neu nad oes unrhyw wybodaeth newydd sy'n effeithio ar y penderfyniad ers hynny.

(b) os yw'r cais yn ymwneud â phlentyn sydd wedi dechrau derbyn gofal gan Awdurdod Lleol.

(c) os yw'r cais yn ymwneud â phlentyn neu berson ifanc sydd wedi dod yn destun gorchymyn cadw.

# Cynnwys y CDU:

## Beth os nad ydw i'n hapus gyda chynnwys Cynllun Datblygu Unigol (CDU) fy mhlentyn?

Os yw plentyn, person ifanc neu ei riant/gofalwr yn anhapus â chynnwys y Cynllun Datblygu Unigol (CDU), gall drafod y pryderon gyda'r cydlynydd dynodedig (Cydlynydd ADY) yn yr ysgol yn gyntaf. Os oes gan y plentyn, ei riant neu berson ifanc bryderon o hyd ar ôl siarad â'r ysgol, gall ofyn i'r awdurdod lleol ailystyried y CDU gyda'r bwriad o'i ddiwygio.

Yna mae'n rhaid i'r Awdurdod Lleol ailystyried y CDU hwnnw a phenderfynu p'un a ddylid ei ddiwygio ai peidio, oni bai bod unrhyw amgylchiadau a restrir isod yn berthnasol;

(a) mae'r awdurdod lleol wedi ailystyried y CDU o'r blaen ac mae'n fodlon nad yw anghenion y disgybl wedi newid ac nad oes unrhyw wybodaeth newydd sy'n effeithio ar y penderfyniad hwnnw ers hynny

(b) mae'r cais yn ymwneud â phlentyn sydd wedi dod yn blentyn sy'n derbyn gofal

(c) mae'r disgybl bellach yn destun gorchymyn cadw.

## Beth sy'n digwydd os bydd yr Awdurdod Lleol yn penderfynu peidio â diwygio'r CDU?

Os bydd yr Awdurdod Lleol yn penderfynu peidio ag adolygu'r CDU, bydd rhaid iddo hysbysu'r dysgwyr a'i riant/gofalwr am y penderfyniad a'r rheswm drosto. Bydd hefyd yn rhoi copi o'r hysbysiad i'r ysgol.

# Enwi darpariaeth:

## Rhesymau y bydd yr Awdurdod Lleol yn sicrhau ac yn enwi darpariaeth addysg

Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn gallu cael y cymorth sydd ei angen arnynt mewn unrhyw ysgol prif ffrwd a gynhelir ac felly ni fydd yr ALl yn enwi ysgol yn y Cynllun Datblygu Unigol (CDU). Bydd y plentyn yn cael ei dderbyn i ysgol drwy'r broses dderbyn sy'n berthnasol i bob disgybl.

Mae'r Cod ADY yn pennu na ddylai'r Cyngor arfer y pŵer hwn oni bai:

(a) bod yr awdurdod lleol yn fodlon bod budd y plentyn yn ei gwneud yn ofynnol i DDdY a nodwyd yn ei CDU gael ei darparu yn yr ysgol a enwir, a

(b) ei bod yn briodol i'r plentyn gael addysg neu hyfforddiant yn yr ysgol.

- Wrth ystyried a ddylid enwi ysgol mewn CDU er mwyn sicrhau mynediad, bydd y Cyngor yn ystyried y ffactorau canlynol:

- A yw nodweddion penodol yr ysgol yn ei gwneud yn arbennig o dda am gyflwyno'r DDdY sydd ei hangen o'i chymharu ag ysgolion a gynhelir eraill y gallai'r plentyn eu mynychu - er enghraifft, nodweddion ffisegol yr ysgol.

- A oes gan yr ysgol aelodau staff sydd ag arbenigedd neu hyfforddiant arbenigol, neu arbenigedd mewn angen prin fel nam ar y clyw neu'r golwg.

- Byddai'n afresymol i ysgol fwy lleol ddarparu DDdY y plentyn. Unrhyw ffactorau eraill y mae'r awdurdod lleol yn eu hystyried yn berthnasol i'r achos penodol

# Beth nesaf?

Mae gan yr Awdurdod Lleol 7 wythnos i ystyried eich cais a gwneud penderfyniad

- Bydd yr ALI yn casglu barn y dysgwr a'r rhiant gan gynnwys unrhyw ddogfennau perthnasol.
- Yn ystod y cyfnod hwn, gall yr ALI ofyn am fwy o wybodaeth gan yr ysgol, gweithwyr iechyd proffesiynol a gwasanaethau plant.
- Bydd yr ALI yn eich hysbysu'n uniongyrchol am y canlyniad a bydd hyn yn cael ei gadarnhau'n ysgrifenedig ar ddiwedd y cyfnod.
- Os ydych yn anfodlon â'r canlyniad o hyd, mae gennych hawl i apelio i Dribiwnlys Addysg Cymru. Rhaid gwneud hyn o fewn 8 wythnos.

Mae rhagor o wybodaeth am y broses hon ar gael yn; https://tribiwnlysaddysg.llyw.cymru/

**Os oes angen mwy o wybodaeth arnoch am ailystyriaeth neu fater sy'n ymwneud ag ADY, gallwch gysylltu â'n llinell gymorth a chyngor ar: Ffôn: 02920 872 731 E-bost: LlinellGymorthADY@caerdydd.gov.uk**

**Os hoffech chi gael cyngor annibynnol, gallwch gysylltu â SNAP Cymru. Mae hwn yn wasanaeth am ddim sy'n cynnig gwybodaeth, cyngor a chymorth i rieni plant a phobl ifanc sydd â/a allai fod ag anghenion dysgu ychwanegol. Gallwch gysylltu â nhw ar; Ffôn: 0808 8010608 neu yn www.snapcymru.org**

Crëwyd Hydref 2023

UCHELGAIS PRIFDDINAS CAPITAL AMBITION

CARDIFF CAERDYDD